# Cynllun Gwers Cadwynau Bwyd

**Oedran Arfaethedig:** Cyfnod Sylfaen
**Maes Dysgu:** Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

NFU CYMRU
Fferm Wyddoniaeth

## Cysylltiadau Cwricwlwm:

**Ystod –** Fi fy hun a phethau byw eraill
**Sgiliau -** meddwl am gwestiynau, gofyn y cwestiynau hynny a gwrando ar yr atebion, gwrando ar syniadau pobl eraill, llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau, didoli a grwpio gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh ar brydiau, gweld cysylltiadau rhwng achos ac effaith, ffurfio cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau sy'n ymwneud â Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, disgrifio'r hyn y maent wedi'i ddarganfod a chynnig esboniadau syml.

## Amcanion Dysgu:

**'Dwi'n medru creu cadwyn fwyd syml yn annibynnol.**

***Rhy anodd?*** 'Dwi'n medru creu cadwyn fwyd syml gyda chymorth oedolyn
***Rhy hawdd?*** 'Dwi'n medru creu cadwyn fwyd syml a dosbarthu'r anifeiliaid sydd ynddo mewn i grwpiau gwahanol gan ddefnyddio iaith wyddonol.

**Geirfa Allweddol:**
Bwytäwr, Cynhyrchydd, Ysglyfaethwr, Ysglyfaeth, Hollysydd, Llysysydd, Cigysydd, Bwytäwr Cynradd, Bwytäwr Eilradd.

## Cyflwyniad:

Gwyliwch y 'Science Farm – Farm Food Chain Video' yn www.nfu-cymru.org.uk. Rhowch grynodeb o'r fideo: Pa anifeiliaid welom ni? Oedd yna unrhyw eiriau newydd i ni ddysgu?
Rhannwch y plant yn grwpiau gallu cymysg o 3 a rhowch fand pen glaswellt a mwgwd buwch i bob grŵp (yr aelod o'r tîm sydd heb fwgwd yw'r dyn!). Gofynwch i bob grŵp osod eu hunain yn y drefn gywir.
**Trafodwch y 4 gair isod:**
***Cynhyrchydd -*** Mae'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr yn blanhigion, maent yn cael eu hegni o'r haul
***Llysysydd –*** Anifeiliaid sydd yn bwyta planhigion yn unig yw llysysyddion
***Hollysydd -*** Mae hollysyddion yn bwyta planhigion ac anifeiliaid eraill
***Cigysydd –*** Mae cigysyddion yn bwyta anifeiliaid eraill yn unig fel eu prif fwyd

**Egniwr 1 munud** - Mae'r plant yn cadw eu mygydau ymlaen ac yn sefyll i fyny pan fo'r athro/awes yn galw eu dosbarthiad.

## Prif Sesiwn:

Mae pob plentyn yn creu cadwyn fwyd o bapur gan ddefnyddio'r daflen adnoddau atodedig. Mae'r plant yn dewis trefn y gadwyn fwyd yn annibynnol ac yn creu eu cadwyn.

***Ar gyfer y rhai fyddai'n cael anhawster gyda'r weithgaredd uchod -*** Mae plant yn adnabod ac yn ysgrifennu'r anifeiliaid a soniwyd amdanynt yn y cyflwyniad ac a ddarlunnir ar ddolenni'r gadwyn gyda chymorth oedolyn

***Ar gyfer y rhai byddai'n cael y weithgaredd uchod yn rhy hawdd***
Ynghyd â chyflawni'r gadwyn fwyd newydd, mae'r plant hefyd yn ychwanegu dosbarthiadau i bob dolen.

## Sesiwn Grynhoi:

**Pwy ydy Pwy?** Gan ddefnyddio'r sleidiau a ddarperir, mae'r athro/awes neu plentyn hyderus yn dewis un o'r anifeiliaid oddi ar y sleid. Dylai'r plant eraill ofyn cwestiynau Ie/Na, Ydw/Nac ydw neu Oes/Nac oes er mwyn diystyru'r holl anifeiliaid eraill.

**Cwestiynau enghreifftiol -** Wyt ti'n hollysydd? Wyt ti'n byw mewn jyngl? Wyt ti'n bwyta anifeiliaid eraill?

Gallai defnyddwyr byrddau gwyn rhyngweithiol groesi'r atebion i ffwrdd wrth ateb y cwestiynau.

## Gweithgareddau Ymestynnol a syniadau ychwanegol:

- Ewch ati i greu mygydau anifeiliaid eich hunain a gofynnwch i'r disgyblion gasglu at ei gilydd mewn cadwynau bwyd neu gategorïau – ymestynnwch y dysgwyr gan gyflwyno'r termau 'bwytäwyr cynradd, eilradd a thrydyddol.'
- Ewch ati i greu cadwynau bwyd gan ddefnyddio lluniau wedi gludo i gwpanau papur.
- Defnyddiwch ddiagram Venn syml sydd yn dangos y bwyd mae anifail yn ei fwyta er mwyn penderfynu os yw'n lysysydd, yn hollysydd neu'n gigysydd.

NFU Cymru, Ty Amaeth, Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd,
Powys, LD2 3TU
www.nfu-cymru.org.uk